



Heddlu • Police

**DYFED  
POWYS**



# Pecyn cyngor yn dilyn bwrgleriaeth

**Eich cyfeirnod trosedd yw:**

---

**Y swyddog sy'n delio â'r  
ymchwiliad hwn yw:**

---

**Ffôn:**

---

**E-bost:**

[@dyfed-powys.police.uk](mailto:@dyfed-powys.police.uk)

---



# Cynnwys

|                                                        |                    |
|--------------------------------------------------------|--------------------|
| <a href="#">Beth ddylech chi ei wneud nawr</a>         | <a href="#">3</a>  |
| <a href="#">Beth nesaf?</a>                            | <a href="#">4</a>  |
| <a href="#">Lleihau'r risg o fwrghleriaeth bellach</a> | <a href="#">5</a>  |
| <a href="#">Rhoi marc diogelwch ar eich eiddo</a>      | <a href="#">7</a>  |
| <a href="#">Cofrestru eich eiddo</a>                   | <a href="#">8</a>  |
| <a href="#">Cysylltiadau defnyddiol</a>                | <a href="#">9</a>  |
| <a href="#">Ffurflenni eiddo wedi'i ddwyn</a>          | <a href="#">10</a> |

### **Ein gwasanaeth i chi**


Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i bawb sy'n ymweld â'r ardal neu'n byw yno.

Bydd y pecyn hwn yn eich arwain drwy'r broses os cyflawnwyd bwrghleriaeth ar eich eiddo yn ogystal â rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi er mwyn lleihau'r risg bod y drosedd yn cael ei chyflawni eto yn y dyfodol.

### **Beth i'w ddisgwyl gan yr heddlu**

Y camau nesaf:

- Bydd swyddog yn gwneud ymholiadau cychwynnol am y digwyddiad, yn cymryd datganiad ac yn cofnodi manylion yr eiddo sydd wedi'i ddwyn.
- Bydd swyddog yn adolygu'r digwyddiad er mwyn cael cyfle i gasglu olion bysedd, tystiolaeth fforensig ac i edrych ar unrhyw recordiadau digidol.
- Bydd swyddogion yn cynnal ymholiadau o dŷ i dŷ ac yn nodi unrhyw recordiadau digidol a allai fod wedi eu gwneud mewn cartrefi ac adeiladau cyfagos.
- Os byddwch yn dod o hyd i eiddo sydd wedi'i ddwyn ar unrhyw farchnad ar-lein neu yn gwybod am ei leoliad byddwn yn gweithredu'n brydlon i geisio ei gael yn ei ôl.
- Byddwch yn cael galwad dilynol gan y swyddog sy'n gyfrifol am eich achos o fewn saith diwrnod i chi adrodd am y fwrghleriaeth. Mae'n ddyletswydd ar y swyddog i sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiad a byddwn yn rhoi gwybod i chi os cyhuddir unrhyw un o gyflawni'r fwrghleriaeth. Cysylltwch â'r swyddog sy'n delio â'ch achos drwy ffonio neu e-bostio gan ddefnyddio'r manylion ar flaen y pecyn hwn. Cofiwch fod swyddogion yn gweithio shifftiau ac efallai na fyddant yn gallu ymateb yn syth.



## Beth ddylech chi ei wneud nawr

Cyn gynted ag y byddwch yn ymwybodol bod bwrghleriaeth wedi digwydd a/neu bod eich eiddo wedi'i ddwyn:

- Cysylltwch â'ch banc/cymdeithas adeiladu/cwmni cerdyn credyd **ar unwaith** i ganslo unrhyw gardiau banc/credyd yr ydych yn amau eu bod ar goll – gwnewch hyn hyd yn oed cyn i chi roi gwybod i'r heddlu am y digwyddiad.
- Cysylltwch â'ch yswirwyr.

### Canslo cardiau banc/credyd

Os ydych yn amau bod eich waled a/neu eich cardiau banc/credyd wedi'u dwyn, dylech gysylltu â darparwr eich cerdyn (eich banc, cymdeithas adeiladu, cwmni cerdyn credyd, cerdyn siop) ar unwaith.

Os byddwch yn cysylltu â darparwr eich cerdyn o fewn 24 awr efallai y byddwch yn gallu cael eich arian yn ôl os bydd lleidr yn defnyddio'ch cardiau. Fodd bynnag, mae pob achos yn cael ei drin yn unigol.



### Cysylltwch ag yswiriwr y cynnwys yn eich cartref

Dylech gysylltu â'ch yswirwyr cyn gynted â phosibl i ddweud wrthynt bod bwrghleriaeth wedi digwydd.


Efallai y bydd eich yswirwyr am gymryd rhai manylion dros y ffôn, anfon aseswr i'ch cartref neu anfon ffurflen hawlio atoch i'w llenwi. Bydd angen eich **rhif trosedd** a rhestr o bopeth sydd wedi'i ddwyn. Dylid gwneud hyn **yn ychwanegol** i gwblhau a dychwelyd y ffurflenni eiddo wedi'i ddwyn sydd yn y llyfryn hwn.

Efallai y bydd eich yswirwyr hefyd yn rhoi cyfeirnod hawlio i chi.



### Cysylltwch â'ch darparwr gwasanaeth ffôn symudol

Os yw eich ffôn symudol wedi'i ddwyn, dylech gysylltu â'ch darparwr gwasanaeth ffôn symudol cyn gynted â phosibl. Byddant yn gallu atal eich ffôn rhag cael ei ddefnyddio a rhoi manylion rhif IMEI eich ffôn i chi (y rhif adnabod unigryw ar gyfer eich ffôn), a bydd angen i chi roi'r rhif hwn i'r heddlu.





### Beth nesaf?

Gwyddom y gofid sy'n cael ei beri i bobl gan fwrghleriaeth, yn enwedig os caiff eitemau o werth sentimental eu dwyn. Siaradwch â'r swyddog sy'n gyfrifol am eich achos os oes gennych unrhyw bryderon penodol. Fel arall, cysylltwch â Victim Support UK gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn adran 'Cysylltiadau defnyddiol' y canllaw hwn.

Os oes gennych unrhyw bryderon am ddiogelwch yn y cartref neu os hoffech ragor o wybodaeth neu gyngor, naill ai siaradwch â'ch swyddog cymdogaeth neu dilynwch y canllawiau isod. Gallwch hefyd fynd i [www.dyfed-powys.police.uk](http://www.dyfed-powys.police.uk) am ragor o wybodaeth.



### Newid cloeon drysau a ffenestri

Os yw lladron wedi defnyddio grym wrth dorri mewn i'ch cartref, neu os yw'ch allweddi wedi mynd ar goll neu wedi'u dwyn, dylech drwsio neu newid y cloeon ar ffenestri a drysau.

Os oes gennych yswiriant, dylai eich cwmni yswiriant allu trefnu hyn ar eich rhan.

Os nad oes gennych yswiriant, neu os gofynnir i chi wneud eich trefniadau eich hun, gall saer cloeon wneud hyn i chi. Argymhellir eich bod yn dewis saer cloeon sy'n aelod o'r Master Locksmiths Association (MLA). Mae holl aelodau'r MLA yn cael eu harolygu a'u cymeradwyo gan y gymdeithas, ac yn gweithio i'r safonau uchaf gan ddefnyddio cynhyrchion o ansawdd uchel. Am ragor o wybodaeth ewch i [www.locksmiths.co.uk](http://www.locksmiths.co.uk) neu ffoniwch **0800 783 1498**.

### Cadw cofnod o'ch eitemau gwerthfawr

Gall profiad o fwrghleriaeth fod yn drawmatig. Gall hyn olygu na allwch gofio manylion yr eitemau sydd wedi'u dwyn pan fyddwch yn rhoi gwybod i'r heddlu am y fwrghleriaeth am y tro cyntaf neu efallai y byddwch yn darganfod bod eitemau eraill ar goll yn ddiweddarach.

Bydd y ffurflen ar gyfer **cofnodi eiddo sydd wedi'i ddwyn** sydd yn y pecyn hwn yn eich helpu i restru'n union pa eitemau sydd wedi'u dwyn. Cofiwch gynnwys y canlynol:

- rhifau model a chyfresol (gellir eu canfod efallai ar dderbynebaw neu hen ddogfennau)
- marciau a fydd yn gwneud yr eiddo yn haws i'w adnabod megis crafiadau, tolciau neu farc eiddo
- disgrifiad o unrhyw eitemau anarferol neu unigryw, fel gemwaith neu lestri arian
- ffotograffau neu luniau catalog o eitemau os ydynt ar gael
- manylion unrhyw eitemau y mae eich cod post wedi'i farcio arnynt neu sydd wedi'u marcio â thoddiant fforensig
- manylion unrhyw eitemau yr ydych wedi eu cofrestru ar [www.secureassetregister.com](http://www.secureassetregister.com)

Bydd gwybodaeth gywir a manwl am eitemau sydd wedi'u dwyn yn helpu'r heddlu i wneud y canlynol:

- adnabod eich eiddo a'i ddychwelyd atoch
- sicrhau bod lladron yn cael eu herlyn
- helpu i sicrhau bod hawliadau yswiriant yn mynd yn eu blaenau'n esmwyth.






## Lleihau'r risg o fwrghleriaeth bellach

Am gyfnod ar ôl i'r fwrghleriaeth ddigwydd gall fod yn fwy tebygol y bydd bwrghleriaeth yn digwydd yn yr un cartref eto neu mewn cartref cyfagos. Mae hyn oherwydd bod gan y lladron bellach rywfaint o wybodaeth am sut i fynd i mewn i'r cartref neu gartrefi tebyg. Gall hyn beri pryder ond gallwch gymryd camau i leihau'r risg hon.

Mae'r mwyafrif o fyrgleriaethau yn digwydd pan mae lleidr yn gweld ei gyfle. Rydym yn argymhell eich bod yn gosod cyfuniad o ddyfeisiadau diogelwch yn dilyn y canllaw 'WIDE' fel isafswm yn eich cartref er mwyn lleihau'r risgiau hyn. Yn ogystal â rhoi cyfuniad o ddyfeisiadau WIDE ar waith mae rhai camau eraill y gallwch eu cymryd i sicrhau nad yw lleidr yn gweld ei gyfle.



**(Windows)**  
Cloeon  
fffenestri



**(Indoor lights)**  
Defnyddio switshys  
amseru ar gyfer  
goleuadau yn y tŷ



**(Double/deadbolts)**  
Gosod boltau dwbl  
neu foltau marw ar  
y drysau



**(Exterior lights)**  
Defnyddio  
synhwyrdd ar gyfer  
goleuadau allanol



### Y giât cefn:

Gwnewch yn siŵr nad oes modd cael mynediad i'ch gardd gefn. Mae'n wirioneddol bwysig. Gosodwch ffensys a gatau cryf a gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu cadw ynghlo. Gwnewch hi'n anodd i fyrgleriaid ddringo drostynt drwy ychwanegu dellt a phlanhigion pigog. Mae lladron yn manteisio o'r ffaith bod gerddi cefn yn llefydd preifat gan ei fod yn rhoi amser iddynt allu mynd i mewn i'ch cartref drwy dorri drysau patio, er enghraifft



### Gosod teledu cylch cyfyng a chlychau drws digidol:

Gosodwch deledu cylch cyfyng y tu allan i'ch tŷ neu gloch ddigidol ar y drws. Nid yw lladron am gael eu gweld a gall y dyfeisiau hyn gasglu tystiolaeth y gallwn ei rhannu ymhlith ein swyddogion a'r cyhoedd. Mae canllawiau ar osod teledu cylch cyfyng domestig ar gael yn [www.gov.uk](http://www.gov.uk)



### A all eich cymdlogion weld eich mynedfeydd a'ch allanfeydd?

Gwnewch hi'n haws gweld pwy sy'n mynd a dod i'ch cartref. Tociwch unrhyw blanhigion, llwyni a ffensys uchel sy'n rhwystro'ch cymydog rhag gweld mynedfeydd ac allanfeydd eich cartref, a'u gwaredu. Nid yw lladron am gael eu gweld gan y gallai hynny olygu y gallent gael eu dal.



### Marciwch eich eiddo gyda hylifau marcio fforensig:

Defnyddiwch hylifau marcio fforensig i'w gwneud yn fwy tebygol y byddwch yn cael eich eiddo yn ôl. Mae'r hylifau hyn yn gweithredu fel tystiolaeth DNA a gellir eu defnyddio i gysylltu eiddo a ddarganfyddir â chi. Mae brandiau poblogaidd yn cynnwys SelectaDNA a SmartWater.



### Edrychwch i weld a oes unrhyw beth gwerthfawr yn y golwg:

Edrychwch i weld pa bethau gwerthfawr sydd i'w gweld o'r tu allan i'ch cartref. Os oes yna eitemau a fyddai'n temtio lladron, symudwch nhw o'r golwg.



### Biniau olwyn, offer a gwrthrychau gardd trwm:

Mae biniau olwyn sydd wedi'u gadael o flaen y tŷ yn gallu helpu byrgleriaid i ddringo dros eich ffensys. Gall offer a gwrthrychau trwm sy'n cael eu gadael allan eu helpu wrth dorri i mewn. Rhowch nhw i gadw.



## Pecyn cyngor yn dilyn bwrghleriaeth

### Awgrymiadau ychwanegol:

- Clowch bob ffenestr a drws cyn i chi fynd allan neu cyn i chi fynd i'r gw...
- Gosodwch fesurau diogelwch fel larymau tresmaswyr, cadwyni diogelwch a chloeon ar ddrysau.
- Peidiwch â gadael allweddi (gan gynnwys allweddi car) neu bethau gwerthfawr ger drysau neu ffenestri lle y gellir eu gweld.
- Cadwch garejys a siediau ar glo a gosodwch larwm ynddynt lle bo mod...
- Peidiwch byth â chuddio allweddi sbâr i'ch tŷ y tu allan neu mewn sied...
- Gwaredwch ddeunydd pacio yn ofalus – mae blychau gwag wedi'u gadael y tu allan yn tynnu sylw at eich pethau gwerthfawr.



### Os ydych yn mynd i ffwrdd

- Defnyddiwch switshys amseru ar oleuadau a radios i roi'r argraff bod rhywun gartref.
- Canslwlch ddanfoniadau rheolaidd, fel llaeth a phapurau newydd.
- Sicrhewch fod dodrefn gardd wedi eu storio a bod siediau a gatiau wedi'u cloi.
- Gofynnwch i berthynas neu gymydog dibynadwy alw heibio a symud unrhyw bost sydd y tu mewn i'ch drws
- Trefnwch bod eich llenni yn cael eu hagor a'u cau tra byddwch i ffwrdd.
- Cynigiwch bod un o'ch cymdogion yn parcio ar eich dreif.

### Cael yswiriant

Os oes gennych yswiriant ar gyfer cynnwys y cartref rydych yn gwybod y gallwch gael eiddo yn lle'r hyn sydd wedi'i ddwyn, er na fydd hawliad yswiriant byth yn gwneud iawn am golli eitemau o werth sentimental.

Mae yna lawer o yswirwyr cynnwys y cartref ar y farchnad sy'n cynnig lefelau gwahanol o yswiriant a fforddiadwyedd.



## Rhowch farc diogelwch ar eich eiddo

Gall marcio eich eiddo helpu i atal lladron, ond gall hefyd gynyddu'r siawns i'r heddlu ddychwelyd eitemau coll neu rai sydd wedi'u dwyn i'w gwir berthnigion.

Mae nifer o wahanol ffyrdd o farcio eich pethau gwerthfawr, gan gynnwys:

- **Uwch fioled (UV) neu farcio anweledig** – Mae beiros UV yn rhoi marc anweledig ar eich eiddo y gellir ond ei weld o dan lamp UV yn unig. Mae'r marcwyr hyn ar gael yn y rhan fwyaf o siopau sy'n gwerthu deunydd ysgrifennu.
- **Marcio gan wneud difrod** – Gellir marcio offer garddio, eitemau trydanol trwm ac offer pweredig ag arwydd wedi'i baentio, gan eu gwneud yn hawdd i'w hadnabod ac atal lladron. Fodd bynnag, gallai hyn leihau gwerth yr eitem os ydych am ei gwerthu.
- **Engrafu neu ysgythr** – Mae'r ddau ddull yn addas ar gyfer nifer o arwynebau caled a gellir gwneud hyn gan ddefnyddio offeryn engrafu trydan neu offeryn engrafu â llaw.
- **Marcio seramig** – Mae pen marcio seramig wedi'i gynllunio i farcio llestri, gwydr neu arwynebau gwydredig. Nid ydynt yn torri nac yn crafu'r wyneb ond maent yn gadael marc parhaol.
- **Toddiannau marcio fforensig** – Mae'r rhain yn doddiannau diniwed ac yn cynnwys cod fforensig unigryw (fel olion bysedd), sy'n ei gwneud yn hawdd adnabod eitemau sydd wedi'u marcio.
- **Marcio arbenigol (eitemau gwerthfawr)** – Gall fod yn anodd marcio eitemau fel gemwaith neu hen bethau a gallai gwneud hynny ostwng eu gwerth. Gofynnwch mewn siop gemydd neu siop hen bethau sydd ag enw da am gyngor ar farcio diogelwch ar gyfer eitemau o'r math yma.



### Cofiwch...

Wrth farcio eich pethau gwerthfawr, dylech bob amser gynnwys gwybodaeth a fydd yn nodi pwy yw'r perchennog, er enghraifft y cod post.

### Cyngor defnyddiol arall

- **Tynnwch lun o'ch pethau gwerthfawr** – Tynnwch luniau lliw o unrhyw eitemau nad ydych am eu marcio, gan roi sylw arbennig i unrhyw farciau gwahaniaethol megis llythrennau blaen neu arfbais. Dylid tynnu lluniau yn erbyn cefndir plaen a chynnwys pren mesur yn y llun i roi syniad o'r maint.
- **Cadwch gofnod o'ch pethau gwerthfawr** – Cadwch dderbynebau a manylion eraill yr eitemau gwerthfawr, fel rhifau cyfresol, mewn lle diogel rhag ofn y bydd arnoch eu hangen, neu ystyriwch eu cofrestru ar gronfa ddata eiddo genedlaethol fel [www.secureassetregister.com](http://www.secureassetregister.com)



### Cofrestrwch eich eiddo

Cofrestr eiddo ar-lein yw'r Secure Asset Register sy'n cynnwys cronfa ddata a ddefnyddir gan heddluoedd i olrhain perchnogion eiddo sydd ar goll neu wedi ei ddarganfod ar ôl cael ei ddwyn. Gallwch gofrestru rhifau cyfresol eich pethau gwerthfawr trwy greu cyfrif gan ddefnyddio eu gwefan ddiogel [www.secureassetregister.com](http://www.secureassetregister.com)

Bydd cofrestru'n golygu y gall yr heddlu ganfod y gwir berchennog os ydynt yn darganfod yr eiddo a oedd wedi'i ddwyn.

### Ymwelwyr annisgwyl


Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n galw yn eich cartref yn bobl dilys. Ond weithiau gall pobl ymweld yn ddirybudd a cheisio twyllo eu ffordd i mewn i'ch cartref i ddwyn eich pethau gwerthfawr a'ch arian. Gelwir y rhain yn 'lladron tynnu sylw' a 'galwyr ffug'.

Byddant yn gweithio fel unigolion neu mewn parau a gallant fod yn ddynion neu'n fenywod. Gallant gymryd arnynt eu bod yn gweithio i gwmni dŵr, cwmni nwy neu gwmni trydan, neu gallant ddefnyddio plant i'ch twyllo i'w gadael i mewn.

Ceisiwch osgoi cadw symiau mawr o arian parod gartref. Pan fydd dieithryn yn galw yn eich cartref, cofiwch y canlynol:

### Cloi, Stopio, Cadwyn, Gwirio

- Byddwch yn wylidwrs.
- Clowch ddrysau cefn a ffenestri.
- Defnyddiwch dwll sbïo a chadwyn a gofynnwch pwy ydynt heb agor y drws.
- Peidiwch byth â gadael y drws ar agor heb eich bod chi yno.
- Gofynnwch am fanylion i ddangos pwy ydyn nhw a gwiriwch yr wybodaeth, hyd yn oed os ydych wedi trefnu'r apwyntiad ymlaen llaw.
- Ffoniwch y cwmni eich hun (nid ar rif y cewch ganddyn nhw) i wirio eu bod yn ddilys.
- Gofynnwch iddyn nhw ymadael a dod yn ôl ar amser arall pan fydd rhywun yn gallu bod gyda chi.



### Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cadwch nhw allan.

Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi alwr ffug wrth eich drws, ffoniwch yr heddlu ar **999**.

### Ymunwch â Chynllun Gwarchod Cymdogaeth

Mae Cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth yn cynnwys grwpiau o wirfoddolwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu a'r cyngor lleol.

Maent yn dosbarthu cyngor ar ddiogeled a diogelwch o fewn ardal ddynodedig ac yn helpu i wneud yn siŵr nad yw aelodau hŷn y gymuned neu'r rhai sy'n agored i niwed yn dargedau i droseddwyd.

I ymuno â chynllun lleol neu am fwy o wybodaeth:

- ewch i [www.ourwatch.org.uk](http://www.ourwatch.org.uk)







## Cysylltiadau defnyddiol

### Rhoi gwybod am drosedd

Galwch **101** i roi gwybod am ddigwyddiad nad yw'n fater brys neu i siarad â'ch swyddog lleol. Mewn argyfwng neu os yw bywyd mewn perygl, ffoniwch **999**.

Os ydych yn fyddar neu â nam ar eich lleferydd, anfonwch neges destun yn nodi '**Police**', a'ch neges, i **60066**.

I roi gwybodaeth am drosedd yn ddiennw ffoniwch Crimestoppers ar **0800 555 111**.

### Atal troseddau

Am ragor o gyngor ar ddiogelwch neu atal troseddau, ffoniwch **101**, neu ewch i [www.dyfed-powys.police.uk](http://www.dyfed-powys.police.uk)

### Timoedd Plismona Bro ac Atal

Mae gan bob ardal dîm hygyrch penodol o swyddogion heddlu a swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu wrth law i roi cyngor ac ymateb i'r anghenion a'r blaenoriaethau a osodir gan y gymuned leol.

Er mwyn cysylltu â'ch swyddog bro, neu am fanylion plismona yn eich ardal chi, galwch heibio i [www.dyfed-powys.police.uk](http://www.dyfed-powys.police.uk) a nodwch eich cod post o dan y tab 'Eich Ardal'.

### Cymorth i Ddioddefwyr

Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cynnig cymorth personol, emosiynol ac ymarferol i helpu dioddefwyr, teuluoedd a thystion oroesi trosedd a'u gwneud nhw'n gryfach. Mae'r gwasanaeth am ddim ac yn gyfrinachol, a does dim gwahaniaeth pa un ai a adroddwyd am y drosedd ai peidio, na phryd ddigwyddodd y drosedd. Os ydych chi wedi cael eich effeithio gan drosedd, cysylltwch â Chymorth i Ddioddefwyr ar 0300 123 2996. Mae llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 10y.b.-6y.h.

### Taflen gyngor cod ymarfer i ddioddefwyr troseddau y Weinyddiaeth Gyfiawnder

#### [Taflen gyngor cod ymarfer i ddioddefwyr troseddau y Weinyddiaeth Gyfiawnder](#)



### Sefydliadau eraill

Mae'r rhifau ffôn hyn ar gyfer arweiniad yn unig.

- **Age UK** - yn darparu gwasanaethau, gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn, gan gynnwys diogeled yn y cartref, diogelwch, pensiynau, iechyd, gofal a thai. Ffoniwch **0800 169 6565** rhwng 8am a 7pm neu ewch i [www.ageuk.org.uk/cymru](http://www.ageuk.org.uk/cymru) am fanylion.
- **Master Locksmiths Association (MLA)** – yn rhoi manylion seiri cloeon cymeradwy sy'n gweithio i safonau uchel gan ddefnyddio cynhyrchion o ansawdd uchel. Galwch **0800 783 1498** neu ewch i [www.locksmiths.co.uk](http://www.locksmiths.co.uk) am fanylion.
- **Secure Asset Register** – Un o gronfeydd data eiddo genedlaethol y Deyrnas Unedig sy'n helpu'r heddlu i ddod o hyd i berchnogion eiddo sydd ar goll neu sydd wedi'i ddwyn. I gofrestru eich pethau gwerthfawr am ddim, ewch i [www.secureassetregister.com](http://www.secureassetregister.com)



# Ffurflenni eiddo wedi'i ddwyn

Weithiau, mae'n bosibl y bydd cymaint o eiddo'n cael ei ddwyn fel nad yw'n bosibl cofio a chofnodi'r cyfan yn gywir pan fydd swyddog yn dod i'ch cartref am y tro cyntaf. Os mai dyna'r sefyllfa, mae'n bwysig eich bod yn rhoi manylion unrhyw eitemau ychwanegol i ni cyn gynted ag y gallwch ar ôl ein hymweliad, er mwyn ein helpu gyda'n hymchwiliadau ac er mwyn i ni wneud ein gorau i'w canfod a'u dychwelyd i chi.

Mae copi o'r ffurflen ar gael yn electronig yng nghefn y pecyn hwn, neu cysylltwch â'r swyddog sy'n ymwneud â'r achos drwy e-bost neu ar y ffôn.

Wrth lenwi'r ffurflen, dylech gynnwys yr eiddo a ddisgrifiwyd eisoes wrth roi gwybod am y drosedd am y tro cyntaf, yn ogystal â manylion unrhyw eitemau ychwanegol yr ydych wedi canfod eu bod wedi cael eu dwyn ers hynny.

## Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan.

Er mwyn ein helpu i gymryd camau gweithredu cyn gynted â phosibl, cwblhewch y ffurflen yn electronig, a'i dychwelyd atom drwy e-bost at y swyddog sy'n ymwneud â'r achos.

Neu gallwch argraffu'r ffurflen, ei llenwi a'i dychwelyd i'r orsaf lle y maer swyddog yn gweithio.

Sylwch y bydd yn cymryd mwy o amser i'n timau brosesu eich ffurflen â llaw.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os bydd arnoch angen cymorth i gwblhau'r ffurflen, cysylltwch â'r swyddog sy'n ymwneud â'r achos.

## Disgrifio eich eiddo

Dylai disgrifiad yr eitem gynnwys unrhyw wybodaeth a allai ein helpu i adnabod a chanfod yr eiddo.

## Nodiadau canllaw

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl am yr eitem ym mlwch A, gan ddefnyddio un llinell ar gyfer pob eitem sydd wedi'i ddwyn.

Os yw'r eitem wedi'i ganfod, nodwch hyn yn y blwch disgrifiad, gan roi'r dyddiad ac ym mhle y cafodd ei ganfod os yn bosibl.

Mae enghreifftiau ar y ffurflen i'ch helpu.

Nid oes angen manylion cyfrif banc arnom, dim ond eich enw chi ac enw'r banc dan sylw.

Gellir cael rhif IMEI eich ffôn symudol gan eich darparwr gwasanaeth neu o'r blwch y daeth eich ffôn symudol ynddo, os ydyw gennych o hyd.

Mae'n bwysig darparu rhif cyfresol eitem sydd wedi'i ddwyn, gan fod hyn yn gwella'r siawns o'i ganfod ac yn helpu i ddatrys trosedd. Fodd bynnag, ni allwn warantu y gellir dod o hyd i'r eitem os caiff ei ddwyn hyd yn oed os ydych yn darparu'r manylion hyn.

Dylid dychwelyd pob ffurflen wedi'i llenwi trwy e-bost lle bo modd i'r swyddog sy'n ymwneud â'r achos. Cofiwch gynnwys unrhyw luniau sydd gennych o'r eitemau.



Ffurflen Eiddo Wedi'i Ddwyn

Manylion eiddo \_\_\_\_\_

Cyfeirnod trosedd

| A. Disgrifiad llawn o'r eiddo wedi'i ddwyn gan gynnwys gwneuthuriad a model                      |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------|-----------|
| Neu<br><br>Math o gerdyn, h.y. Cardiau debyd/credyd. Llyfr talu i mewn / llyfr siec ac enw banc. | B. Yr enw a nodir ar yr eitem | C. Unrhyw rifau adnabod, rhif cyfresol, rhif fflyd, rhif dyfais IMEI. Nodwch pa un. | D. Unrhyw farciau adnabod (a beth ydyn nhw). Nodwch y cod post os yw hwn wedi'i farcio ar yr eitem. | E. Lliw     | F. Gwerth |
| Enghraifft: Cerdyn debyd Visa                                                                    | Mr A Arall                    |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
| Enghraifft: Modrwy fetel aur 9 carat gyda diemwnt unigol                                         |                               | 28/10/2010                                                                          | Modrwy orau. Dyddiad wedi'i nodi ar y tu fewn                                                       | Aur         | £350.00   |
| Enghraifft: Dril 24v mewn blwch du gyda dau fatri. Gwneuthuriad a'r model.                       |                               | Llythrennau blaen Mr A.A. Rhif cyfresol 123456                                      | Mae'r batri wedi'i farcio â'm llythrennau blaen ac mae'r blwch wedi torri yn y cornel.              | Gwyrdd a du | £250.00   |
| Enghreifftiau: Ffôn Symudol. Gwneuthuriad a model.                                               |                               | IMEI 123456789012                                                                   |                                                                                                     | Du          | £200.00   |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |
|                                                                                                  |                               |                                                                                     |                                                                                                     |             |           |



Ffurflen Eiddo Wedi'i Ddwyn

Manylion eiddo \_\_\_\_\_

Cyfeirnod trosedd:

| <div><div>A. Disgrifiad llawn o'r eiddo wedi'i ddwyn gan gynnwys gwneuthuriad a model</div><div>B. Yr enw a nodir ar yr eitem</div><div>C. Unrhyw rifau adnabod, rhif cyfresol, rhif fflyd, rhif dyfais IMEI. Nodwch pa un.</div><div>D. Unrhyw farciau adnabod (a beth ydyn nhw). Nodwch y cod post os yw hwn wedi'i farcio ar yr eitem.</div><div>E. Lliw</div><div>F. Gwerth</div></div> |  |  |  |  |  |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|--|--|--|
| <div>Neu</div> <div>Math o gerdyn, h.y. Cardiau debyd/credyd. Llyfr talu i mewn / llyfr siec ac enw banc.</div>                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |  |  |  |  |  |